

## PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 12 Mehefin, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr J. Aviet, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a M.J.G. Morgan.

Hefyd yn bresennol: V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr A. Asbrey, C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), a S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid).

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A.M. Collins (Cadeirydd), G.M. Ball a H.M. Payne; G. Doyle a D. Dutch (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid) a C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg).

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 4. DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD PANEL A CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

#### ARGYMHELLWYD –

(1) GOFYN i Swyddfa'r Prif Weithredwr ddarparu rhagor o fanylion am y broses ymgynghori a'r cynllun ymgysylltu ar gyfer yr Hunanasesiad Blynyddol i'r Pwyllgor hwn ac y dylid ymrwmo i sicrhau bod y grwpiau hynny na allant ymgysylltu'n ddigidol â'r broses hon. ymgynghori drwy ddulliau eraill, megis darparu copïau caled o'r ddogfennaeth berthnasol.

(2) BOD y Cabinet yn ystyried awgrym y Pwyllgor y dylid monitro'r gyfradd ymateb fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg. Pe bai'n dod i'r amlwg hanner ffordd yn y broses hon bod y cyfraddau ymateb i'r ymgynghoriad yn gymharol isel, dylid ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori os oes angen ac y dylid rhannu hyn hefyd gyda Swyddogion y Cyngor sydd â'r pwerau dirprwyedig perthnasol er mwyn gweithredu'r estyniad hwn.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod yr holl drigolion, rhanddeiliaid, ac ati yn cael eu cynnwys yn briodol ac yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r broses ymgynghori.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn cael y cyfle i ystyried argymhelliad y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad a sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid perthnasol yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses hon yn ogystal â sicrhau bod yr ymgynghoriad yn ddigon cadarn ac effeithiol.